# Pecyn Gwybodaeth ar gyfer Ymgeiswyr

## Arbenigwr Caffael a Chontractau

Hybrid / Llawn Amser

13 Chwefror 2025

Cyfeirnod: TGCPCS



# Cynnwys

Croeso gan Trydan Gwyrdd Cymru ........ 3
Amdanom ni ........ 4
Gwybodaeth am y rôl ........ 6
Telerau ac amodau'r penodiad ........ 8
Amserlen ddangosol ........ 8
Sut i ymgeisio ........ 9
Rhagor o wybodaeth am y rôl ........ 9
Cydraddoldeb ac amrywiaeth ........ 10
Y Gymraeg ........ 10
Caniatâd data ........ 10
Ffurflen monitro amrywiaeth ........ 10

# Croeso gan Trydan Gwyrdd Cymru



Annwyl Ymgeisydd,

Diolch am fynegi diddordeb mewn ymgeisio am y swydd hon gyda Trydan Gwyrdd Cymru (Trydan). Sefydlwyd Trydan ym mis Hydref 2023 i gyflymu’r gwaith o gyflawni prosiectau ynni adnewyddadwy ar ystâd gyhoeddus Cymru gyda’r manteision economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol hirdymor gorau posibl i bobl Cymru. Mae hwn yn fuddsoddiad cynaliadwy hirdymor a ariennir gan Lywodraeth Cymru sy’n bwriadu rhoi sero net a chymunedau Cymru wrth wraidd y cyfnod pontio sydd ei angen i fynd i’r afael ag effeithiau andwyol newid hinsawdd.

Ein nod yw cael un gigawat o ynni glân a gynhyrchir yn lleol erbyn 2040. Bydd Trydan yn ehangu'r broses o gyflwyno prosiectau ynni adnewyddadwy ar hyd a lled ystâd gyhoeddus Cymru, yn bennaf trwy dechnolegau ynni gwynt ar y tir a solar ffotofoltäig gyda'r lle i integreiddio technolegau storio. Mae gennym gyfle gwirioneddol yma i gynhyrchu incwm a fydd yn cael ei ail-fuddsoddi i wella bywydau pobl yng Nghymru yn ogystal â chreu swyddi ynni glân o ansawdd uchel. Bydd Trydan yn helpu i yrru dull newydd o ddarparu buddion o ynni adnewyddadwy sydd wir yn gwneud gwahaniaeth i gymunedau.

Er mwyn ein helpu i gyflawni ein huchelgeisiau rydym yn ceisio recriwtio Arbenigwr Caffael a Chontractau. Byddwch yn adrodd i'r Rheolwr Caffael a Chontractau, ac yn gyfrifol am gyflawni'r gweithgareddau caffael ar hyd a lled y sefydliad a fydd yn helpu i gyflawni ein targedau.

Dyma gyfle gwych i rywun sy’n chwilio am her newydd fod yn rhan o rywbeth o’r cychwyn cyntaf er mwyn creu dyfodol mwy cynaliadwy i bawb. Os teimlwch fod gennych y cymwysterau a'r profiad perthnasol, byddai gennym ddiddordeb mawr mewn clywed gennych. Ceir rhagor o fanylion am y rôl a gofynion y swydd yn y pecyn gwybodaeth hwn i ymgeiswyr. Gobeithio y bydd yn ddefnyddiol i chi ac y cewch eich ysbrydoli i wneud cais i ymuno â ni.

Richard Evans
**Prif Swyddog Gweithredol**

# Amdanom ni

## Cefndir

Ymgorfforwyd Trydan ym mis Hydref 2023, fel cwmni cyfyngedig drwy gyfranddaliadau ac sy’n eiddo’n gyfan gwbl i Lywodraeth Cymru, gyda’r nod o gyflymu datblygiad prosiectau ynni adnewyddadwy ar Ystâd Gyhoeddus Cymru a chynyddu’r gwerth i Gymru o’r gweithgarwch hwn, a fyddai’n cael ei alinio â pholisi Llywodraeth Cymru ac amcanion Gweinidogol.

Amcan strategol trosfwaol y cwmni yw gwireddu uchelgeisiau Llywodraeth Cymru drwy ddarparu un gigawat o ynni adnewyddadwy newydd dan berchnogaeth leol erbyn 2040. Bydd model cyflawni Trydan yn sicrhau bod gwerth ariannol y prosiectau hyn yn cael ei gadw yng Nghymru a’u hallbynnau, yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol, yn cyfrannu at sicrhau buddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ehangach i bobl Cymru.

## Ein cenhadaeth

Ein cenhadaeth yw datgloi potensial ynni adnewyddadwy Cymru, a sicrhau manteision i’n cymdeithas, ein hamgylchedd a’n heconomi, i bawb sy’n byw ac yn gweithio yng Nghymru heddiw ac ar gyfer cenedlaethau’r dyfodol. Byddwn yn gwneud hyn trwy ragori mewn cyflenwi, arweinyddiaeth gyfrifol a chydweithio rhagweithiol.

## Y Sefyllfa bresennol

Mae mwyafrif y tîm cychwynnol wedi'u recriwtio ac mae gweithgareddau sefydlu cwmni â blaenoriaeth wedi'u cwblhau. Sefydlwyd bwrdd parhaol newydd ym mis Mai 2024. Mae bwrdd Trydan yn cael ei gadeirio gan Llŷr Roberts ac mae’n cynnwys pedwar Cyfarwyddwr Anweithredol. Lansiodd Ysgrifennydd y Cabinet y cwmni’n ffurfiol ar 15 Gorffennaf 2024.

Mae Trydan bellach wrthi'n datblygu portffolio o brosiectau ynni adnewyddadwy ar ddiwedd y cyfnod dichonoldeb a bydd yn cynyddu gweithgarwch datblygu wrth i ni barhau i dyfu ein tîm datblygu. Mae'r portffolio prosiectau presennol yn canolbwyntio ar wynt ar y tir, er ein bod yn disgwyl i systemau storio ynni solar ffotofoltäig a batri fod yn rhan o'r portffolio.

## Lleoliad

Bydd y cwmni'n gweithredu gan ddefnyddio model hybrid lle bydd staff yn treulio cyfran o'u hamser yn gweithio gartref. Bydd cyfarfodydd a gweithgareddau eraill ar y cyd yn cael eu cynnal o bryd i'w gilydd gan Lywodraeth Cymru mewn swyddfeydd amrywiol ledled Cymru. Bydd Prif Swyddfa'r Cwmni yn gweithredu o Ferthyr Tudful. Bydd angen i ddeiliad y swydd fod ar gael i weithio yn swyddfa Merthyr Tudful ar sail hybrid. Rydym yn agored i weithio hyblyg, a gellir trafod hyn yn ystod unrhyw un o'r camau recriwtio.

## Rhagor o Wybodaeth am Trydan Gwyrdd Cymru

Ceir rhagor o wybodaeth ar wefan y cwmni: Hafan | Trydan Gwyrdd Cymru

# Gwybodaeth am y rôl

## Diben y swydd

Bydd deiliad y swydd yn gyfrifol am ddarparu gwasanaeth effeithlon, effeithiol a phroffesiynol ar gyfer caffael ar hyd a lled y busnes. Byddwch yn cynorthwyo'r Rheolwr Caffael a Chontractau i oruchwylio'r broses gaffael a rheoli contractau allweddol sy'n gysylltiedig â phrosiectau ynni gwynt ar y tir.

## Cyd-destun Sefydliadol

Bydd y rôl yn adrodd i'r Rheolwr Caffael a Chontractau. Bydd disgwyl i chi hefyd weithio'n agos gyda chydweithwyr ar hyd a lled y sefydliad ac ystod eang o randdeiliaid allanol.

## Prif Ddyletswyddau

### Eich prif dasgau a dyletswyddau:

- Rheoli gweithgareddau caffael megis prosesau tendro, dyfynbrisiau, perthnasoedd â chyflenwyr a rheoli contractau ar gyfer nwyddau a gwasanaethau
- Darparu cefnogaeth broffesiynol i gydweithwyr ddatblygu dogfennaeth i gefnogi'r cylch bywyd caffael
- Cadw trywydd archwilio ar gyfer pob ymarfer caffael trwy gyfrwng cofnodion electronig cywir a chyfredol
- Sicrhau bod yr holl weithgareddau caffael a rheoli contractau'n cyd-fynd â'r cyfreithiau, polisïau, canllawiau a safonau diwydiant perthnasol.
- Nodi cyfleoedd i wella prosesau o fewn y swyddogaethau caffael a rheoli contractau.
- Monitro perfformiad cyflenwyr a chynnal adolygiadau rheolaidd i nodi meysydd i'w gwella.

# Manyleb y person

## Sgiliau a phrofiad angenrheidiol:

- Profiad a gwybodaeth profedig ym maes caffael a rheoli contractau. Yn ddelfrydol o fewn y sector cyhoeddus neu'r sector adeiladu.
- Dealltwriaeth o reoliadau caffael cyhoeddus y DU, Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 a Deddf Caffael 2024.
- Trefnu a rheoli prosesau tendro a llywio arfer gorau.
- Defnyddio offer a llwyfannau e-gaffael i reoli gweithgareddau caffael.
- Craffter masnachol, sgiliau negodi, cyfathrebu a rhyngbersonol da.
- Cryf eich cymhelliant, gwydn a hyblyg gyda'r gallu i weithio dan bwysau ac i derfynau amser tynn.
- Ymroddiad i waith tîm a chydweithio.
- Hyfedredd mewn Microsoft Office Suite gan gynnwys Excel.

## Sgiliau a phrofiad dymunol:

- CIPS lefel 4 neu uwch ac ar y llwybr i achrediad llawn
- Hwyluso ac ymgysylltu â chyflenwyr trwy sesiynau ymgysylltu cyn-farchnad a digwyddiadau cwrdd â'r prynwr
- Gwybodaeth am y diwydiant ynni adnewyddadwy
- Byddai'r gallu i siarad Cymraeg neu barodrwydd i ddysgu yn ddymunol.

# Telerau ac amodau'r penodiad

- Cyflog: tua £40,000
- Math o Swydd: Parhaol
- Awr yr wythnos: Llawn amser – 37 awr yr wythnos
- Gwyliau Blynyddol: 28 diwrnod yn codi i 29 diwrnod ar ôl dwy flynedd o wasanaeth a 30 diwrnod ar ôl tair blynedd o wasanaeth
- Gwyliau Cyhoeddus:8 diwrnod y flwyddyn

# Buddion eraill

Cynllun pensiwn cyfraniadau diffiniedig
Gweithio hyblyg
Cynllun aberthu cyflog cerbydau trydan

# Amserlen ddangosol

Rhaid cyflwyno ceisiadau ddim hwyrach na 4pm ddydd Mercher 5 Mawrth. Dylai'r ymgeiswyr hynny a gaiff eu dewis i fynychu cyfweliad glywed trwy e-bost erbyn dydd Mawrth 11 Mawrth. Y dyddiad cyfweld a ragwelir yw dydd Gwener 21 Mawrth. Bydd hwn yn cael ei gwblhau ar-lein. Os nad yw'r dyddiad hwn yn addas, rhowch wybod i ni ar eich cais.

Ni fydd unrhyw geisiadau a dderbynnir ar ôl y dyddiad cau uchod yn cael eu hystyried.

# Sut i ymgeisio

I wneud cais am y swydd hon, darparwch y canlynol:

1. CV cynhwysfawr sy'n nodi hanes eich gyrfa gyda chyfrifoldebau a llwyddiannau allweddol a manylion eich pecyn tâl presennol.
2. Datganiad ategol ar ffurf llythyr eglurhaol heb fod yn fwy na dwy ochr A4, yn esbonio sut rydych chi'n credu bod eich sgiliau a'ch profiad yn cyd-fynd â'r cyfrifoldebau allweddol a gofynion manyleb y person ar gyfer y rôl. Sylwch fod y llythyr eglurhaol yn rhan bwysig o'ch cais.
3. Manylion dau ganolwr proffesiynol ynghyd â datganiad byr o rinwedd eu swydd a thros ba gyfnod o amser y maent wedi'ch adnabod, disgwylir i un ohonynt fod yn gyflogwr presennol neu ddiwethaf. Ni fyddwn yn cysylltu â chanolwyr heb eich caniatâd ymlaen llaw.
4. Ffurflen monitro amrywiaeth wedi'i chwblhau.
5. Nodwch yn glir yn eich llythyr eglurhaol os cewch eich rhoi ar y rhestr fer, a ydych eisiau i'ch cyfweliad gael ei gynnal drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg.

Anfonwch eich cais at y cyfeiriad e-bost canlynol: swyddi@trydangwyrddcymru.wales

# Rhagor o wybodaeth am y rôl

Os oes gennych unrhyw ymholiadau am unrhyw agwedd ar y broses benodi, os oes angen gwybodaeth ychwanegol arnoch neu os hoffech gael trafodaeth anffurfiol a chyfrinachol, anfonwch e-bost at swyddi@trydangwyrddcymru.cymru i ofyn am alwad a byddwn yn dod yn ôl atoch â phleser. Byddwn yn parchu preifatrwydd unrhyw gyswllt cychwynnol neu fynegiant o ddiddordeb yn y rôl hon, boed yn ffurfiol neu'n anffurfiol.

# Cydraddoldeb ac amrywiaeth

Rydym wedi ymrwymo i greu amgylchedd gwaith cynhwysol i bawb. Rydym yn annog ceisiadau gan bob grŵp heb gynrychiolaeth ddigonol yn arbennig. Nid ydym yn gwahaniaethu ar sail oedran, hil, crefydd, lliw, tarddiad cenedlaethol, rhyw, statws priodasol (gan gynnwys priodas gyfartal, un rhyw neu bartneriaeth sifil), cyfeiriadedd rhywiol, nac anabledd.

# Y Gymraeg

Mae Cymru'n wlad ddwyieithog, gyda'r Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu defnyddio'n rheolaidd yn ein bywydau bob dydd a'n gweithleoedd. Mae gan y Gymraeg statws swyddogol yng Nghymru. Mae mesurau yn eu lle i sicrhau nad yw'n cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Gellir cyflwyno ceisiadau am unrhyw swydd yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Bydd yr ymgeiswyr hynny sy'n cyflwyno eu ceisiadau yn Gymraeg yn cael eu hasesu ar sail gyfartal â cheisiadau a gyflwynir yn Saesneg. Gallwch hefyd ofyn am gyfweliad trwy gyfrwng y Gymraeg. Os hoffech i'ch cyfweliad gael ei gynnal yn Gymraeg, rhowch eich cais yn eich llythyr eglurhaol.

# Caniatâd data

Byddwn yn prosesu'r data a roddwch i ni wrth wneud cais am y rôl hon yn ôl yr angen ar gyfer cyflawni'r dasg hon, a gyflawnir er budd y cyhoedd. Byddwn hefyd yn rhannu'r data ag unrhyw broseswyr data trydydd parti a gyflogir ar ein rhan i ddarparu'r gwasanaeth recriwtio. Mae mwy o wybodaeth ar gael yma: https://www.trydangwyrddcymru.cymru/preifatrwydd/

# Ffurflen monitro amrywiaeth

Mae Trydan Gwyrdd Cymru wedi ymrwymo i werthfawrogi cydraddoldeb ac amrywiaeth ar gyfer ein gweithlu. Er mwyn sicrhau y cyflawnir yr amcanion hyn yn llawn, mae'n hanfodol ein bod yn monitro ein gweithdrefnau recriwtio a dethol. Felly, hoffem i chi gwblhau'r holiadur sydd wedi'i atodi.

**Diben a Manteision**

Mae angen inni ganfod a yw ein polisi yn gweithio'n ymarferol a sicrhau nad oes unrhyw wahaniaethu yn y ffordd rydym yn penodi a dyrchafu staff. Diben monitro yw nodi tueddiadau sy'n dynodi problemau, fel y gallwn eu cywiro er mwyn darparu proses benodi decach a mwy effeithiol i bob ymgeisydd.

## Beth sy'n digwydd i'r wybodaeth y byddaf yn ei darparu?

• Bydd unrhyw wybodaeth a ddarperir yn cael ei thrin yn **gwbl gyfrinachol** ac ni fydd yn effeithio ar eich cais mewn unrhyw ffordd.
• Defnyddir y data i gynhyrchu adroddiadau ystadegol. Mae'r rhain yn cynnwys cyfres o ffigurau dienw, y gallwn eu defnyddio i fonitro nifer ein hymgeiswyr a chanlyniadau ein prosesau recriwtio a dethol.
• Dim ond y rhai sy'n monitro hysbysebu swyddi fydd â mynediad i'r data. Bydd y wybodaeth a gesglir yn cael ei defnyddio’n gwbl ddienw, ond mae enwau wedi’u cynnwys ar ffurflenni i alluogi croeswirio rhwng y ffurflenni a’r gwaith papur sy’n cael ei wneud gan ein gweithwyr recriwtio proffesiynol.
• **Ni** fydd staff sy'n ymwneud â sifftio a chyfweld ar gyfer y swydd yn gweld eich holiadur.
• Ni fydd y wybodaeth sy’n cael ei chasglu yn arwain at system gwota nac yn cael ei defnyddio yn erbyn unrhyw grŵp penodol.

## Ein helpu ni i'ch helpu chi

Gwerthfawrogir eich cydweithrediad yn fawr; helpwch ni i wella cyfleoedd cyfartal. Rydym yn annog **pob** ymgeisydd yn gryf i lenwi, cadw ar wahân a dychwelyd yr holiadur sydd wedi’i atodi ynghyd ag adrannau eraill eich dogfennau ymgeisio.

Diolch am eich cydweithrediad.